


GROW YOUR OWN POTATOES



Gwers 1: Tyfu Tatws

Bydd y plant yn:

- Dysgu sut mae planhigyn tatws yn edrych a sut mae tatws yn tyfu.

Cyflwyniad

Esboniwch i'r plant y byddan nhw'n dysgu am datws. Gofynnwch iddyn nhw ddweud wrthoch chi beth maen nhw'n ei wybod yn barod am datws. Anogwch nhw gyda'r cwestiynau canlynol, gan gasglu atebion y plant heb gadarnhau unrhyw syniadau am y tro:

- Sut mae tatws yn edrych?
- O ble mae tatws yn dod?
- Ydych chi'n gwybod sut mae planhigyn tatws yn edrych?
- Ydy planhigyn tatws yn fyw?
- O ba ran o'r planhigyn mae'r daten yn dod?
- Faint o amser dybiwch chi maen nhw'n cymryd i dyfu?
- Ar ba adeg o'r flwyddyn maen nhw'n cael eu plannu a'u cynaeafu?
- Sut mae coginio tatws?

Gwnewch yn siŵr bod y plant yn deall bod tatws yn dod o blanhigyn ac mae'r enw arnyn nhw yw cloron - sef rhan o'r planhigyn sy'n sownd i'r gwreiddyn. Esboniwch fod tatws yn tyfu dan y ddaear. Defnyddiwch y Pwerbwynt Tyfu Tatws i ddangos i'r plant sut mae planhigyn tatws yn edrych a sut mae tatws yn tyfu. Gyda phlant hŷn, trafodwch swyddogaethau gwahanol rannau'r planhigyn, e.e. mae'r gwreiddiau'n angori'r planhigyn, y dail yn helpu'r planhigyn i gynhyrchu bwyd - ffotosynthesis.

Tasg

5-7 Oed

Rhowch gopi o daflen waith 1 Planhigion Tatws i'r plant. Gofynnwch iddyn nhw enwi holl rannau'r planhigyn. Siaradwch am ba label sy'n perthyn i bob rhan o'r planhigyn. Gofynnwch i'r plant i dorri a glynu'r labeli at rannau cywir y planhigyn yna lliwio llun y planhigyn.

7-11 Oed

Trefnwch fod y plant yn gwneud gwaith ymchwil ar y daten mewn grwpiau bach. Dylai pob grŵp greu taflen ffeithiau am y daten. Dylai hon gynnwys: sut mae planhigyn tatws yn edrych, braslun wedi'i labelu, swyddogaeth gwahanol rannau'r planhigyn, prosesau bywyd y planhigyn, e.e. twf, maeth, symudiad, atgynhyrchu. Gall hefyd gynnwys gwybodaeth am: dyfu tatws, beth sydd ei angen ar daten i dyfu'n dda; ble yn y DU mae tatws yn cael eu tyfu; mathau o datws a dyfir yn y DU; sut i storio tatws; faint o amser maen nhw'n cymryd i dyfu.

Crynodeb

Siaradwch â'r plant am eu tasgau a beth maent wedi'i ddysgu. Gofynnwch i rai o'r plant i rannu'u gwaith.

Gallech hefyd ...

- Ddangos lluniau o wahanol fathau o datws;
- Gofyn i'r plant gofnodi faint o weithiau maen nhw'n bwyta tatws mewn wythnos;
- Gadael i'r plant wneud y gweithgaredd Blwyddyn y Daten

